



Datganiad i'r cyfryngau

Arian grant newydd i helpu cymunedau i roi hwb i'w hamgylchedd lleol

Mae WCVA yn falch o gael cyhoeddi arian grant newydd i brosiectau cymunedol amgylcheddol, diolch i Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd y cynllun, gwerth £1.5 miliwn y flwyddyn, ar gael am bedair blynedd, o wanwyn 2018.

Bydd WCVA yn cyflwyno'r cynllun drwy gydweithio â Chynghorau Gwirfoddoli Sirol. Bydd yn ariannu prosiectau fydd yn cefnogi bywyd gwyllt, yn lleihau gwastraff ac yn gwella ardaloedd i bobl a byd natur sydd o fewn pum milltir i safle tirlenwi neu orsafoedd trosglwyddo gwastraff.

Dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Hannah Blythyn: 'Bydd y Cynllun Cymunedau yn darparu cefnogaeth hanfodol i brosiectau o bwys yn lleol, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy hybu a gwella'r cymunedau yr effeithir arnynt.'

Bydd grantiau gwerth rhwng £5,000 a £50,000 ar gael i brosiectau sy'n ateb meini prawf y cynllun, gydag un prosiect mawr o bwys cenedlaethol yn cael ei ariannu bob blwyddyn hefyd.

Bydd y Cynllun yn annog gweithgareddau a fydd yn helpu bywyd gwyllt cynhenid ac yn adfer, yn cynnal ac yn hybu cynefinoedd naturiol, yn creu ardaloedd gwyrdd cymunedol, ac yn annog ymdrechion i atal, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff, gan gynnwys mentrau gwastraff bwyd a chompostio. Bydd hefyd yn darparu arian i greu seilwaith gwyrdd - megis rhandiroedd, llwyni, toeon gwyrdd, parciau a gerddi - gwella adnoddau cymunedol a gweithgareddau i adfer mannau sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd mewn cyflwr gwael er mwyn i gymunedau fedru eu defnyddio unwaith eto.


Rhagwelir y bydd nifer helaeth o fudiadau yn ymgeisio i'r gronfa i ariannu amryw o weithgareddau gwahanol gyda'r nod o wella cyfleoedd i gymunedau gael manteisio ar yr amgylchedd lleol sydd o'u cwmpas.

Eglurodd Catherine Miller, Rheolwr Cronfeydd Grant WCVA: 'Mae'r amgylchedd naturiol yn gefndir i nifer o weithgareddau ledled Cymru yn amrywio o chwaraeon a hamdden i erddi cymunedol, twristiaeth bywyd gwyllt, gwirfoddoli a datblygu economaidd lleol. Bydd y cynllun hwn yn galluogi camau sydd wedi'u targedu yn benodol ar gyfer yr amgylchedd naturiol fel y gall barhau i gefnogi'r gweithgareddau hyn ac elwa o ymdrechion pellach i leihau gwastraff ac i ddadwneud y dirywiad mewn bywyd gwyllt.'

Bydd y cynllun yn barod i'w lansio ddiwedd mis Ebrill ac yn agored i bob mudiad. Cewch fwy o wybodaeth ar LDTgrants@wcva.org.uk neu 0800 2888 329.

Nodiadau i olygyddion:

- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) yw'r mudiad aelodaeth cenedlaethol i'r trydydd sector yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw i'r trydydd sector a gwirfoddoli ffynnu, gan wella llesiant i bawb. Gwnawn hyn drwy ddylanwadu, cysylltu a galluogi.
- Bydd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yn dod yn weithredol pan ddatganolir y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i Gymru ar 1 Ebrill 2018. Ei nod yw helpu i leddfu'r effaith negyddol ar gymunedau a all godi o waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi, yn enwedig i'r rhai sy'n byw yn agos at waith tirlenwi.
- Bydd y Cynllun yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi bioamrywiaeth, yn lleihau gwastraff ac yn cefnogi gwelliant amgylcheddol ehangach mewn ardaloedd sydd o fewn pum milltir i safle tirlenwi neu orsaf trosglwyddo gwastraff sy'n anfon 2,000 o dunelli o wastraff i safle tirlenwi bob blwyddyn.

 Deddf Diogelu Data 1998. Mae WCVA yn cadw ac yn prosesu manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, mudiad, ffôn, ffacs, e-bost) aelodau'r wasg ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i hybu'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cyswllt i drydydd partïon er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith hyrwyddo hwn.

Mae WCVA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a geir yn Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn achosi oedi.



INVESTORS | BUDDSODDWYR
IN PEOPLE | MEWN POBL

Swyddfa Gofrestredig - Prif Swyddfa

Tŷ Baltig, Sgwâr Mount Stuart
ffôn 0800 2888 329 ● ffacs 029 2043 1701
minicom 029 2043 1702 (defnyddiwch y cyhoeddwr)
ebost help@wcva.org.uk

Swyddfeydd hefyd yn y Rhyll ac Aberystwyth

Cadeirydd Peter Davies OBE
Is-Gadeiryddion Catriona Williams OBE
Prif Weithredwraig Ruth Marks MBE
Trysorydd Anrhi Mair Gwynant ● **Ysgrifennydd** Tracey Lei

Elusen gofrestredig 218093
● Cwmni cyfyngedig drwy warant 425299
● Wedi ei gofrestru yng Nghymru
Rhif cofrestru TAW 736 645 09

Registered Office - Head Office

Baltic House, Mount Stuart Square, Cardiff, CF10 5FH
tel 0800 2888 329 ● fax 029 2043 1701
minicom 029 2043 1702 (use announcer)
email help@wcva.org.uk

Offices also at Rhyll and Aberystwyth

Chair Peter Davies OBE
Vice-Chairs Catriona Williams OBE
Chief Executive Ruth Marks MBE
Hon Treasurer Mair Gwynant ● **Secretary** Tracey Lewis

Registered charity 218093
● Company limited by guarantee 425299
● Registered in Wales
VAT registration number 736 645 09